Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Adroddiad Blynyddol 2018-19



Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus

Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyflawniadau Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru dros y naw mis cyntaf, o fis Gorffennaf 2018 i fis Mawrth 2019.

Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon ty gwydr a chreu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol.

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn rhoi cymorth i'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol i weithio tuag at y targedau hyn. Nod y Gwasanaeth yw helpu i roi prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ar waith ledled Cymru.

Caiff y Gwasanaeth ei gynnal o fis Gorffennaf 2018 i fis Mawrth 2022, gan gyfuno ac adeiladu ar raglenni blaenorol Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru Effeithlon, Twf Gwyrdd Cymru a'r gwasanaeth Ynni Lleol.



Gwasanaeth Ynni
Energy Service

Cefnogi yndrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus
Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Tabl Cynnwys


| Teitl y dudalen | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Prif allbynnau yn 2018/19 | 5 |
| Prif gyflawniadau yn 2018/19 | 6 |
| Pa fath o gymorth y mae'r Gwasanaeth Ynni yn ei gynnig? | 6 |
| Pa fathau o brosiectau a gafodd gymorth gan y Gwasanaeth Ynni? | 6 |
| Sut y caiff prosiectau ynni yng Nghymru eu hariannu a'u rhedeg? | 6 |
| Pa fath o gymorth y mae'r Gwasanaeth Ynni yn ei gynnig? | 7 |
| Pa fath o brosiectau a gafodd gymorth gan y Gwasanaeth Ynni? | 8 |
| Sut y caiff prosiectau ynni yng Nghymru eu hariannu a'u rhedeg? | 8 |
| Re:fit Cymru - Contractau Perfformiad Ynni | 9 |
| Pwy wnaeth ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ynni yn 2018-19? | 9 |
| Astudiaethau Achos | 10 |
| Sector Cymunedol: Ynni Gwynt | 11 |
| Sector Cymunedol: Storio Batri Solar | 11 |
| Sector Cymunedol: Goleuadau Strydoedd | 12 |
| Sector Cyhoeddus: Effeithlonrwydd Ynni mewn Ystadau | 12 |
| Sector Cyhoeddus: Fferm Solar | 13 |
| Gweithgarwch Strategol | 14 |
| Cynllunio Ynni Rhanbarthol | 15 |
| Astudiaethau seilwaith fflyd a cherbydau trydanol | 16 |
| Lansio Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel | 16 |




# Prif allbynnau yn 2018/19

## Prosiectau sydd ar fin cwblhau'r trefniadau ariannol

Pan fydd prosiectau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy wedi cwblhau'r trefniadau ariannol, neilltuir cyllid iddynt a byddant yn barod i gael eu prynu a'u hadeiladu neu eu gosod.

Nifer y prosiectau effeithlonrwydd ynni
**26**



Nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy
**16**



Incwm ac arbedion y sector cyhoeddus (oes y prosiect)
**£61,258,000**

Incwm cymunedol (oes y prosiect)
**£1,400,000**

Cyfanswm capasiti gosodedig ar gyfer ynni adnewyddadwy
**3MW**



Lleihau carbon (oes y prosiect)
**113,370 tCO2e**

Gwerth prosiectau a ariannwyd gan Raglen Cyllid Cymru
**£25,837,000**

Cyfanswm gwerth buddsoddiadau
**£30,250,000**








# Prif gyflawniadau yn 2018/19

## Prosiectau ychwanegol sydd ar y gweill

Mae'r prosiectau ychwanegol sydd ar y gweill yn cynnwys unrhyw brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy newydd y mae'r Gwasanaeth Ynni yn eu cefnogi ar gam datblygu cynnar, gyda'r posibilrwydd o'u rhoi ar waith yn y dyfodol. Mae'r ffigurau isod yn cyfeirio at y prosiectau ychwanegol newydd sydd ar y gweill o 1 Gorffennaf 2018. Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth Ynni yn parhau i gefnogi prosiectau a etifeddwyd sy'n deillio o raglenni blaenorol Llywodraeth Cymru.


Cyfanswm capasiti gosodedig posibl ar gyfer ynni adnewyddadwy
**14MW**





Nifer y prosiectau effeithlonrwydd ynni
**26**

Nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy
**39**






# Pa fath o gymorth y mae'r Gwasanaeth Ynni yn ei gynnig?

Mae'r Gwasanaeth Ynni yn darparu cymorth technegol a masnachol a chymorth ar faterion yn ymwneud â chaffael, a hynny am ddim, er mwyn helpu i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy mawr, o'r cam cysyniadol i'r diwedd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol a, lle y bo angen, rhanddeiliaid eraill a all ddylanwadu ar hyfywedd prosiect, megis gweithredwyr rhwydweithiau dosbarth.

Caiff pob defnyddiwr gwasanaeth gymorth gan reolwr datblygu penodol o'r Gwasanaeth Ynni i gydlynu a darparu cymorth sydd wedi'i deilwra i'w anghenion, yn ogystal ag arweinydd strategol er mwyn sicrhau ymrwymiad ar lefel uwch yn ei sefydliad a chysoni gwaith y prosiect â blaenoriaethau datgarboneiddio ac economaidd ehangach ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.




(Uchod) Ffigur 1: Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn helpu i ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy o'r cam cysyniadol hyd at yr adeg y cânt eu rhoi ar waith.







# Pa fathau o brosiectau a gafodd gymorth gan y Gwasanaeth Ynni?

## Mae'r prosiectau cyffredin y mae'r Gwasanaeth Ynni yn eu cefnogi yn cynnwys:

- Effeithlonrwydd ynni mewn ystadau: gosod nifer o dechnolegau effeithlonrwydd ynni ar sawl safle i leihau'r defnydd o ynni a'r costau cysylltiedig, er enghraifft inswleiddio, gosod goleuadau effeithlon ac uwchraddio systemau gwresogi adeiladau awdurdodau lleol;
- Gosod dulliau creu ynni adnewyddadwy ar adeiladau: gosod technolegau ynni adnewyddadwy ar sawl safle i greu mwy o ynni adnewyddadwy a chynyddu incwm ar ffurf paneli ffotofoltäig solar, sy'n gysylltiedig â phrosiectau effeithlonrwydd ynni fel arfer;
- Uwchraddio goleuadau strydoedd: uwchraddio goleuadau strydoedd er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a'r costau cysylltiedig, drwy osod lampiau LED neu reolyddion deallus yn eu lle neu leihau nifer yr oriau y cânt eu defnyddio
- Creu ynni adnewyddadwy: datblygu cynlluniau gwynt, ffermydd solar neu ynni dŵr sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus neu grwpiau cymunedol lleol i greu ynni adnewyddadwy ac incwm.

# Sut y caiff prosiectau ynni yng Nghymru eu hariannu a'u rhedeg?

## Mae'r prosiectau cyffredin y mae'r Gwasanaeth Ynni yn eu cefnogi yn cynnwys:

- Rhaglen Cyllid Cymru: cyllid di-log i brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy y sector cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru;
- Banc Datblygu Cymru: benthyciadau a buddsoddiad hyblyg i fentrau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned;
- Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus: cyllid cost isel, hirdymor i'r sector cyhoeddus;
- Cronfeydd mewnol y sector cyhoeddus: cyllidebau cyfalaf neu gronfeydd ailgylchu;
- Llwybrau amgen i gyllid: megis trefniadau prynu ynni, cynigion cyfranddaliadau cymunedol neu drefniadau eraill lle y caiff ynni adnewyddadwy ei werthu i sefydliadau eraill.

"Heb gymorth gan y Gwasanaeth Ynni, fwy na thebyg na fyddem wedi parhau i ddatblygu'r prosiect gan y byddai'n rhaid ein bod wedi cael cymorth allanol ac nid oedd gennym yr arian na'r gefnogaeth i gael hynny. Drwy allu mynd at yr uwch-reolwyr a rhoi gwybod bod cymorth ar gael am ddim, mae'n ennyn cefnogaeth i ni allu bwrw ati.

**Defnyddiwr Gwasanaeth Ynni**

# Re:fit Cymru: Contractau Perfformiad Ynni

Mae sawl corff cyhoeddus yn defnyddio fframwaith Re:fit Cymru i redeg prosiectau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr. Mae hyn yn rhoi 'contract perfformiad ynni' i gyrff cyhoeddus, sef strwythur sy'n gwarantu arbedion ar filiau ynni ar ôl gosod technolegau effeithlonrwydd ynni neu ynni adnewyddadwy. Mae prosiectau Re:fit yn costio dros £1 filiwn yr un a gellir eu hariannu drwy fenthyciadau di-log gan Raglen Cyllid Cymru. Caiff cymorth i ddatblygu prosiectau Re:fit ei ddarparu gan dîm dynodedig a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

# Pwy wnaeth ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ynni yn 2018-19?

**Ym Mlwyddyn 1, ymgysylltodd y Gwasanaeth Ynni ag amrywiaeth eang o sefydliadau yng Nghymru:**

| | |
|---|---|
| 54 | o grwpiau cymunedol |
| 22 | o awdurdodau Lleol |
| 11 | o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus * |
| 10 | Byrddiau Iechyd ac Ymddiriedolaeth |
| 9 | Prifysgolion a cholegau |
| 7 | Cyngor Tref a Chymuned |
| 3 | Gwasanaeth Tân ac Achub |

*gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol, Cydwasanaethau'r GIG, Parciau Cenedlaethol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi carbon isel lwyddiannus

Supporting Wales' drive towards a successful low carbon economy

# Astudiaethau Achos

Mae'r adran hon yn cyflwyno pum astudiaeth achos o brosiectau a gefnogwyd gan y Gwasanaeth Ynni yn 2018-19.



# **Sector Cymunedol:** Ynni Gwynt



Mae Renewable Power Pembrokeshire yn Gymdeithas Budd Cydweithredol a Chymunedol sy’n cwmpasu Sir Benfro gyfan. Mae ei hamcanion cyffredinol yn cynnwys cwblhau gweithgareddau er budd i’r gymuned a hyrwyddo dulliau arbed ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sir.

Mae’r Gwasanaeth Ynni wedi dangos cefnogaeth sylweddol i dyrbin gwynt 900 kW East Williamston drwy waith technegol a masnachol cymhleth a gwaith dichonoldeb ym maes caffael, yn ogystal â chael caniatadau tir a chynllunio wrth iddo symud ymlaen i gwblhau’r trefniadau ariannol a’r gwaith adeiladu.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu grant i’r grŵp cymunedol ddatblygu’r prosiect; bydd y tyrbin yn costio £1.1 miliwn a bydd angen £300k ychwanegol i gysylltu â’r grid a chael mynediad iddo. Caiff hyn ei gefnogi gan fenthyciad o £1.4 miliwn gan Fanc Datblygu Cymru. Gwnaeth y Gwasanaeth Ynni roi cymorth i’r grŵp cymunedol gael Tariff Cyflenwi Trydan ar gyfer y prosiect cyn y dyddiad cau ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn golygu y bydd y grŵp cymunedol yn derbyn lefel incwm sefydlog o gynhyrchu trydan adnewyddadwy am 25 mlynedd. Disgwylir i’r prosiect gynhyrchu ei ynni cyntaf ym mis Mawrth 2020.

# **Sector Cymunedol:** Storio Batri Solar

Cwmni cydweithredol cymunedol yw Gower Power sy’n arbenigo mewn sefydlu, datblygu a sicrhau cyllid ar gyfer mentrau cymdeithasol ac ecolegol bach. Ei nod yw datblygu ardal y Gŵyr yn Ne-orllewin Cymru i fod yn ardal flaenllaw o ran cydnerthedd a chynaliadwyedd.

Cafodd Gower Power gymorth gan y Gwasanaeth Ynni i ddatblygu a gweithredu system storio batris ar raddfa fawr ar fferm solar 1MW sydd eisos yn eiddo i’r gymuned. Bydd y prosiect storio yn helpu i wneud y mwyaf o fuddiannau ac incwm y fferm solar ac yn sicrhau y gellir cyflenwi trydan adnewyddadwy yn uniongyrchol i fusnesau a phreswylwyr lleol. Gwnaeth y Gwasanaeth Ynni helpu gyda’r gwaith technegol ac ariannol a’r gwaith dichonoldeb masnachol ar gyfer y prosiect, gan sicrhau grant o £59,000 gan Lywodraeth Cymru a benthyciad o £315,000 i brynu a gosod batri Tesla graddfa 228kW â chapasiti i storio 912kWh.

Caiff aelodau o’r gymuned leol gyfle i ddefnyddio a/neu fuddsoddi mewn trydan adnewyddadwy o osodiad Storio Solar Gower Power. Caiff y system ei gosod yn ystod hydref 2018 a chaiff y cynnig cyfranddaliadau ei lansio ym mis Rhagfyr 2019.





# **Sector Cyhoeddus:** Effeithlonrwydd Ynni mewn Ystadau

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gymorth gan y Gwasanaeth Ynni i ddatblygu dau gynllun effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr, un ar gyfer pum canolfan hamdden a’r llall ar gyfer pum adeilad y cyngor, gan gynnwys canolfannau dysgu oedolion. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio’n agos â thimau eiddo ac ynni y cyngor ac ymweld â safleoedd a chwblhau cyfrifiadau technegol i ddatblygu pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni addas ar gyfer y safleoedd. Roedd y mesurau arfaethedig yn cynnwys insiwleiddio adeiladau, insiwleiddio pibelli, goleuadau LED, rhesymoli ac uwchraddio boeleri, cyfuno gwres a phŵer, uwchraddio systemau awyru, gorchuddion ar gyfer pyllau nofio, optimeiddio rheolyddion unedau trin aer a phaneli ffotofoltäig solar.

Mae cyfanswm gwerth y mesurau gwella hyn tua £1.2 miliwn. Disgwylir i’r ddau brosiect hyn arbed tua £2.9 miliwn i’r cyngor ar gostau ynni a lleihau allyriadau carbon o 6,700 o dunelli yn ystod eu cyfnodau gweithredu.

# **Sector Cymunedol:** Goleuadau Strydoedd

Cydweithiodd y Gwasanaeth Ynni â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau£982,000 drwy Raglen Cyllid Cymru i fuddsoddi mewn rhaglen fawr i uwchraddio goleuadau strydoedd. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau adolygiad cynhwysfawr o’r goleuadau strydoedd sydd eisoes yn bodoli a nodi amrywiaeth o opsiynau ar gyfer arbed ynni, costau a charbon drwy osod goleuadau LED a sicrhau’r strategaeth gyffredinol orau ar gyfer goleuadau strydoedd.

Cytunwyd ar y dull terfynol â thimau ynni a goleuadau strydoedd y cyngor gan ystyried iechyd, diogelwch, lles a blaenoriaethau eraill y cyngor. Yn dilyn hyn, gwnaeth y Gwasanaeth Ynni baratoi’r achos busnes a chefnogi cyfrifiadau technegol a ddefnyddiwyd i gael cymeradwyaeth gan dîm cyllid y cyngor a chytuno ar fenthyciad di-log gan Raglen Cyllid Cymru. Disgwylir i’r prosiect arbed £2.7 miliwn i’r cyngor ar filiau ynni a 4,900 o dunelli o garbon dros gyfnod gweithredu’r prosiect o 20 mlynedd.

1

2


1. Diolch i gymorth gan y Gwasanaeth Ynni, llwyddodd Gower Power i osod y batri Tesla, fel y gwelir yn y llun gyferbyn.

2. Gwnaeth y Gwasanaeth Ynni roi cymorth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen osod boeleri newydd yn lle hen foeleri nad oeddent yn ynni-effeithlon.

# Sector Cyhoeddus: Fferm Solar

Gwnaeth y Gwasanaeth Ynni helpu Cyngor Caerdydd i ddatblygu fferm solar fawr ar safle tirlenwi gynt. Mae'r fferm solar 9MW, a fydd yn cynnwys gosod 33,000 o baneli ffotofoltäig solar, yn brosiect blaenllaw ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol, bydd y prosiect yn creu incwm i'r cyngor drwy werthu trydan gwyrdd i waith trin dŵr cyfagos sy'n eiddo i Dŵr Cymru.



Mae Cyngor Caerdydd wedi ystyried adeiladu fferm solar ar safle tirlenwi Ffordd Lamby am sawl blwyddyn. Cafodd y prosiect drafferthion yn sicrhau momentwm, yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cymorthdaliadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phwysau cystadleuol arall ar gyllideb cyfalaf y cyngor.

Gan fod safle tirlenwi gynt yn parhau i nwyo ac yn cynnwys ecoleg gymhleth a bod gofyniad i ailagor mynediad i'r cyhoedd o amgylch llwybr yr arfordir, roedd sawl her sylweddol o ran datblygu'r safle.

Helpodd y Gwasanaeth Ynni y cyngor i fanteisio ar y buddiannau yn deillio o ddatblygu'r safle ei hun yn hytrach na throsglwyddo'r cyfle i gwmni preifat. Gwnaeth y Gwasanaeth Ynni roi cymorth i'r cyngor drwy gydol y broses gymhleth o gyflwyno cynlluniau, rhoi arweiniad drwy gydol y broses gaffael a chreu modelau masnachol manwl ar gyfer amrywiaeth o senarios economaidd. O ganlyniad, teithiodd y prosiect drwy brosesau cymeradwyo mewnol ar lefel cabinet y cyngor a llwyddodd i negodi cytundeb prynu ynni (PPA) gyda Dŵr Cymru. Disgwylir i'r fferm solar gael ei hadeiladu'n llawn a'i gweithredu yn ystod hydref 2020.



# Gweithgarwch Strategol

Yn ogystal â'r gwaith craidd ar effeithlonrwydd ynni a phrosiectau ynni adnewyddadwy, cwblhaodd y Gwasanaeth Ynni sawl gweithgaredd arall ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru:

## Arolwg ar ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn cymryd camau gweithredu i leihau allyriadau carbon. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Gwasanaeth Ynni i gynnal arolwg manwl o 54 o gyrff cyhoeddus i gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran y gweithgarwch datgarboneiddio hwn ym mhob rhan o'r sector. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar ddull y sector cyhoeddus yng Nghymru o fynd i'r afael â'r canlynol:

- Targedau datgarboneiddio a'r cynnydd hyd yn hyn;
- Dulliau llywodraethu ac adnoddau rheoli carbon;
- Data ac adrodd yn ôl ar y defnydd o ynni ac allyriadau carbon;
- Gweithgarwch i leihau allyriadau o adeiladau, fflyd, defnydd tir a chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel;
- Polisïau caffael yn ymwneud â datgarboneiddio.

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i lywio'r fethodoleg safonol sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru i adrodd yn ôl ar allyriadau carbon ac asesu'r cynnydd tuag at darged 2030 ar gyfer niwtralrwydd carbon yn y sector cyhoeddus.

Mae'r data crai hefyd yn cael eu defnyddio gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd penodol i roi prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ar waith.



# Cynllunio Ynni Rhanbarthol


Mae'r Gwasanaeth Ynni yn cydweithio â rhanddeiliaid yn Rhanbarth Dinas Caerdydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i greu cynlluniau ynni rhanbarthol ar gyfer pob ardal economaidd. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys materion yn ymwneud ag ynni o fewn cynlluniau ehangach ar gyfer datblygiad economaidd a thwf ac yn annog dull sy'n seiliedig ar leoedd i fynd i'r afael â datgarboneiddio. Bydd y cynlluniau yn nodi llif o brosiectau y gellir buddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau y gellir lleihau carbon ym mhob rhanbarth. Mae'r gwaith cynllunio ynni rhanbarthol wedi'i rannu'n ddau gam:

## Cam 1: Datblygu Strategaeth Ynni

Asesiad o'r sefyllfa → Asesiad llinell sylfaen → Creu gweledigaeth a chynnwys strategol → Modelu systemau ynni a dadansoddi economaidd

## Cam 2: Datblygu Cynllun Darparu Ynni

Nodi cyfleoedd newydd a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli o ran prosiectau → Asesu yn erbyn fframwaith y cytunwyd arno → Blaenoriaethu prosiectau ar y rhestr fer → Datblygu dulliau cyflawni → Monitro cynnydd




Ffigur 2: Graffig enghreifftiol o weithdy 'y sefyllfa' bresennol o ran cynllunio ynni rhanbarthol a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Ynni ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.





# Astudiaethau seilwaith fflyd a cherbydau trydanol

Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yn her gynyddol bwysig i'r sector cyhoeddus. Cwblhaodd y Gwasanaeth Ynni astudiaethau ymchwil i'r posibilrwydd o gael fflyd carbon isel yn rhanbarth Gwent, gydag wyth corff cyhoeddus yn cydweithio â'i gilydd, yn ogystal ag astudiaeth ar wahân ar gyfer Bro Morgannwg. Arweiniodd y gwaith hwn at y canlynol:

- Dadansoddiad manwl o batrymau defnyddio cerbydau ar hyn o bryd yn y sector cyhoeddus
- Asesiad o'r posibilrwydd technegol i newid y patrymau defnyddio cerbydau presennol a defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Dadansoddi costau a buddiannau defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn
- Opsiynau ar gyfer cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau

# Lansio Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

Ym mis Mawrth 2019, gwnaeth y Gwasanaeth Ynni gefnogi Llywodraeth Cymru i lansio 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' yng Nghaerdydd, gan gynnwys areithiau gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, a siaradwyr dylanwadol eraill. Mae'r ddogfen yn nodi cynllun datgarboneiddio cyffredinol i Gymru ac mae'n cyfeirio'n rheolaidd at y Gwasanaeth Ynni.



# Prosiectau a gefnogir gan y Gwasanaeth Ynni

Cyfanswm y prosiectau a gefnogir yn; **141**

awdurdodau Lleol **22**

| Awdurdod | Hydro | Solar Ff | Gwynt | Egni Eff | storio | gwres |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1 | | 1 | 3 | | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | | | 1 | | 2 |
| Caerffili | 3 | | 2 | 1 | | |
| Caerdydd | | 8 | | 13 | | |
| Sir Gar | 1 | 1 | | 3 | | |
| Ceredigion | | 1 | | 1 | | 2 |
| Conwy | | 1 | 1 | 1 | | |
| Sir ddinbych | 1 | 2 | 1 | 1 | | |
| Sir y Fflint | | 2 | | 3 | | 1 |
| Gwynedd | 3 | 6 | 1 | 2 | | |
| Ynys Môn | | 3 | 1 | 1 | | 1 |
| Merthyr Tudful | | 2 | | 6 | | |
| Sir fynwy | | | | 2 | | |
| Castell-Nedd Port Talbot | 1 | 6 | 1 | 3 | | 1 |
| Casnewyddd | | 3 | | 6 | | |
| Sir Penfro | | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Powys | | | | 3 | | |
| Rhondda Cynon Taf | | 1 | 1 | 2 | | 2 |
| Abertawe | | 3 | | 2 | 1 | 1 |
| Torfaen | | 1 | | 5 | | |
| Bro Morgannwg | | | | 2 | | 1 |
| Wrecsam | | 1 | | 3 | | |

